# NEGESEUON AM YMARFER: Pryderon diogelu am oedolyn nad oedd yn hysbys i'r Gwasanaethau o'r blaen

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

Cynhaliwyd Fforwm Ymarferwyr Amlasiantaethol yn 2019 yn dilyn marwolaeth oedolyn yn ei saithdegau hwyr. Mae rhai o'r themâu a ddaeth i'r amlwg o'r achos hwn wedi'u hamlygu isod er mwyn atgoffa ymarferwyr amlasiantaethol o arfer gorau.

## Dyletswydd i adrodd

Dylid cyflwyno adroddiad pryd bynnag y mae pryderon ynghylch oedolyn sy'n profi camdriniaeth neu esgeulustod neu sydd mewn perygl o'u profi, sydd ag anghenion gofal a chymorth ac o ganlyniad i'r anghenion hynny ni all amddiffyn ei hun rhag y cam-drin neu esgeulustod neu'r perygl ohonynt. Os oes gan unrhyw berson bryderon o'r natur hon, ei gyfrifoldeb yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu sydd â dyletswyddau a phwerau statudol i wneud ymholiadau ac ymyrryd pan fo angen: **NID YW HYN YN FATER O DDEWIS PERSONOL**

***Os ydych chi'n credu bod oedolyn mewn perygl uniongyrchol o niwed, cysylltwch â'r Heddlu ar unwaith ar 999.***

## Galluedd a chaniatâd

Wrth asesu a all oedolyn sydd mewn perygl roi caniatâd, dylid ystyried y canlynol ymhlith cwestiynau eraill a geir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru [Social care Wales (diogelu.cymru)]

- Pa dystiolaeth sydd ar gael nad oes gan yr oedolyn sydd mewn perygl o niwed alluedd meddyliol? A weithredwyd y prawf o alluedd dau gam? A ystyriwyd 5 egwyddor y Ddeddf Galluedd Meddwl?
- A oes rhagdybiaethau'n cael eu gwneud ynghylch galluedd yn seiliedig ar oedran, ymddangosiad, cyflwr neu ymddygiad? A weithredwyd y prawf o alluedd dau gam? A ystyriwyd 5 egwyddor y Ddeddf Galluedd Meddwl?
- Beth ydym yn ei wybod am hanes yr oedolyn mewn perygl yn y gorffennol? (Ydyn ni wedi cwblhau'r holl wiriadau ochrol priodol, e.e. wedi cysylltu â'r Meddyg Teulu?)

**Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol:** [Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol - GOV.UK (www.gov.uk)]

Os oes gennych achos rhesymol i amau bod yr oedolyn mewn perygl o gael ei gam-drin a neu ei esgeuluso, **nid oes angen caniatâd arnoch** i drafod neu roi gwybod am bryder gyda'r Awdurdod Lleol

## Hunan-esgeulustod

### Disgrifiad

- *Diffyg hunanofal i'r graddau ei fod yn peryglu ei iechyd a'i ddiogelwch personol*
- *Esgeuluso gofalu am ei hylendid personol, ei iechyd neu'i amgylchedd*
- *Analluu i osgoi hunan-niweidio*
- *Methu â cheisio cymorth neu gael mynediad at wasanaethau i ddiwallu ei anghenion iechyd a gofal cymdeithasol*
- *Analluu neu amharodrwydd i reoli ei faterion personol*

### Dangosyddion

- *Hylendid personol gwael iawn*
- *Ymddangosiad blêr*
- *Diffyg bwyd, dillad neu lety hanfodol*
- *Diffyg maethiad a/neu ddadhydradu*
- *Byw mewn amodau brwnt neu aflan*
- *Esgeuluso cynnal a chadw'r cartref*
- *Celcio*
- *Casglu nifer fawr o anifeiliaid mewn amodau amhriodol*
- *Diffyg cydymffurfio â gwasanaethau iechyd neu ofal*
- *Analluu neu amharodrwydd i gymryd meddyginiaeth neu drin salwch neu anaf*

## Rhai egwyddorion am rannu gwybodaeth

Mae pob gweithiwr proffesiynol yn **rhannu gwybodaeth briodol mewn modd amserol**, ac mae ganddynt fynediad uniongyrchol at gyngor i drafod unrhyw bryderon am unigolyn.

Mae pob gweithiwr proffesiynol yn **gweithio mewn ffordd amlasiantaethol a chydweithredol** i ddiogelu a hyrwyddo lles oedolyn mewn perygl.

## Myfyrio ar wneud penderfyniadau

Nid oes unrhyw esgusodion dros fethu â chyflawni'r ddyletswydd i adrodd am oedolyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Fodd bynnag, gall ffactorau goddrychol ddylanwadu ar wneud penderfyniadau yn ystod y cam hwn. Gallai'r rhain gynnwys:

- Pryderon y bydd yr adroddiad yn arwain at drallod sylweddol i'r oedolyn sydd mewn perygl ond ni ddarperir unrhyw gymorth na chefnogaeth ystyrlon oherwydd diffyg adnoddau;
- Normaleiddio math penodol o gamdriniaeth neu esgeulustod oherwydd cyffredinedd sefyllfa benodol. Er enghraifft, gall camddefnyddio alcohol neu gyffuriau fod yn gyffredin mewn lleoedd penodol.
- Gor-optimistiaeth ynghylch sefyllfa: ei weld fel digwyddiad unwaith-am-byth neu ddamwain.
- Dibynnu ar eraill i gwblhau gweithred gan gynnwys cyflwyno ffurflen dyletswydd i adrodd a rhagdybio y bydd yn cael ei chwblhau neu wedi cael ei chwblhau.

**Mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn myfyrio ar y ffordd y gall ffactorau goddrychol ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.**

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch a ddylid cwblhau ffurflen dyletswydd i adrodd, mae bob amser yn syniad da i geisio cyngor gan y person diogelu dynodedig yn eich asiantaeth neu gan dimau diogelu o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Gellir dod o hyd i gymorth wrth gymhwyso barn broffesiynol yng Nghanllawiau Trothwy Diogelu Oedolion Gwent:[Rhoi Gwybod Neu Beidio Â Rhoi Gwybod (gwentsafeguarding.org.uk)]